# SL(5)603 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) (2020)

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol)". Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bobl sy'n cyrraedd Cymru i ynysu am gyfnod i'w bennu'n unol â'r rheoliadau. Mae'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i rai eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi'u hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ("gwledydd a thiriogaethau esempt"). Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt i ychwanegu Cuba a Singapore at y rhestr, ac i hepgor Gweriniaeth Tsiec, Jamaica a'r Swistir. Mae'r Rheoliadau hefyd yn ychwanegu digwyddiad arall at y rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon yn Atodlen 4 y mae'r rhai sy'n cymryd rhan ynddynt naill ai wedi'u hesemptio neu wedi'u hesemptio rhag y gofynion ynysu.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Mae'r pwyntiau a ganlyn wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri (h.y. y rheol bod angen cyfnod o 21 diwrnod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a bod Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, wedi esbonio'r rheswm dros hyn mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 28 Awst 2020.

Yn benodol, nodwn fod y llythyr yn dweud:

> *"mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod, a'u dod i rym cyn eu gosod, yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae Rheoliadau 3 a 5 hyn hefyd yn gwneud darpariaethau trosiannol yn ymwneud â newid statws y gwledydd a'r gofyniad i ynysu. Credwn y byddai'n ddefnyddiol i'r cyhoedd pe bai Llywodraeth Cymru yn esbonio'r darpariaethau trosiannol hyn yn ei chanllawiau **Teithwyr sy'n esempt rhag rheolau ffiniau Cymru: coronavirus (COVID-19)**.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb y Llywodraeth

Rydym yn derbyn y gall manylion ychwanegol yn y canllawiau fod yn ddefnyddiol a byddwn yn ystyried hyn ymhellach. Yn y cyfamser, gobeithiwn fod y rheoliadau a'r dogfennau esboniadol ochr yn ochr ag ymarfer cyfathrebu uchel ei broffil yn golygu bod teithwyr yn cael gwybod pryd y mae rhaid dilyn y gofynion ynysu.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**8 Medi 2020**